# Cyngor Cymuned Glantwymyn
**Nôs Iau, 24 Tachwedd 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Gwenfair E Davies, Aled O Griffiths, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Deryck Lewis, Ann Williams, Huw M Williams,.a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Paul Hughes, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Geraint Wigley.

Estynodd y Cadeirydd croeso i pawb.

**16.59. Cofnodion cyfarfod 27 Hydref 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.60. Materion yn codi o'r cofnodion.**
49.3 Dyfodol Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Eglurodd fod penderfyniad ar y cais i adeiladu Ysgol Newydd ym Machynlleth ar fin cael ei wneud yn y Cynulliad yn Caerdydd.
51.4 Cyflwr Cae'r Efail Llanwrin. Dim newyddion ar y sefyllfa.
57.1 Ymgynghoriad am dyfodol nifer blwch ffon yn ardal Sir Powys. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir gyda sylwadau y Cyngor Cymuned ar y saith blwch ffon o dan bygythiad o fewn ardal y Cyngor Cymuned. Yr oedd yn disgwyl un cyfle olaf mynegi barn cyn diwedd yr ymgynghoriad.

**16.61. Cynllunio.**
61.1 DEM/2016/0008. Dymchwel dau adeilad ar yr hen Safle Cwmni Coedwigaeth yng Ngheinws. Nodwyd fod y cyfle i rhoi barn wedi pasio.

**16.62. Eitemau i'w talu.**
62.1 Cyflog y Clerc am tri Mis, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr. Cytunwyd taliad o £750-00.

**16.63. "Asset Register" y Cyngor.**
Gofynodd y Clerc am cymorth y Cynghorwyr gyda rhestr o "assets" y Cyngor.
63.1 Llochesi Bws. Nodwyd fod llochesi bws mewn bodolaeth yng Nghwnlline, Cemaes, Cemmaes Road, Llanwrin a Ceinws ond nid oedd y Cynghorwyr yn credu bod yr un o'r llochesi yma yn cyfrifoldeb y Cyngo Cymuned. Nodwyd fod y lloches ger Abergwydol ddim mewn bodolaeth rhagor.
63.2 Feinciau. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y feinciau canlynol yn cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Un ar y sgwar yn Llanwrin, un ar ben rhiw y Grofft yn Cemmaes Road, un ger Fronfelen, Corris, un tu llan i'r Penrhos yng Nghemaes ac o leuaf un yng Nghwnlline. Mi fydd rhaid i'r Clerc gwneud ymholiadau ynglyn a dau fainc arall yng Nghwnlline.
63.3 Hysbysfyrdd. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod yr hysbysfyrdd yng Nghemaes, Llanwrin a Ceinws yn cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.

**16.64. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
64.1 Ysgol Glantwymyn. Rhoddodd Cyng Aled Griffiths manylion am y cais am arian gan y Federasiwn Ysgolion Lleol. Ychwanegodd Cyng Gwilym Fychan ei fod yn hyderus mi fydd y cais yma yn llwyddianus.
64.2 Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng Gwenfair Davies ei fod hi wedi mynychu cyfarfod diwethaf y Fforwm a mynegodd digalondid fod neb o'r Canolfn Iechyd yng Nglantwymyn wedi bod yno. Eglurodd hefyd bod e sefyllfa gyda diffyg deintydd ym Machynlleth yn dal yn broblem.

**16.65. Gohebiaeth.**

65.1 Llythr gan Russell George AC yn dod a sylw y Cyngor at yr ymgynghoriad ar yr oriau newydd yn Swyddfa Post Cemmaes Road. Cytunwyd diolch i Mr George am ei diddordeb, ond mae'r Cyngor yn hapus i cefnogi perchenog y swyddfa post gyda'r oriau newydd a mynegu bodlondeb y Cyngor fod y gwasanaeth yn dal ar gael yn y pentref.

65.2 E-bost gan Laura Samuels, Cyngor Sir Powys, yn egluro mi fydd y Cyngor Sir yn cael gwared o'r biniau ail gylchu sydd wedi eu lleoli ger mynediad CAT, Pantperthog. Rhoddodd Cyng Gwilym Fychan rhagor o gwybodaeth am y sefyllfa gyda'r gwasanaeth ail gylchu. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i phwyslesio fod y sefyllfa gyda digwyddiadau sbwriel yn cael ei gadael yng nghefn gwlad yn cynyddu o fewn y Cymuned.

65.3 E-bost gan Liam Fletcher, Cyngor Sir Powys, yn egluro mi fydd y ffordd U5105 yn mynd heibio Tan-y-bryn a Bronffynnon yn Darowen yn cau am rhai wythnosau yn y gwanwyn i hwyluso gwaith ar y pibellau dwr. Mi fydd mynediad I'r dau ty ar y ffordd yma yn cael ei diogelu yn ystod y gwaith.

65.4 E-bost gan Joy Bartholomew, Cyngor Sir Powys ynglyn yr etholiadau ar 4 Mai 2017. Nodwyd mi fydd rhaid i'r Cyngor Cymuned talu am unrhyw etholiad o fewn y Cymuned.

65.5 E-bost gan Bryan Grew, Un Llais Cymru, ynglyn a Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2017.

65.6 E-bost gan Andy Rowland yn Estyn croeso i'r Cynghorwyr mynychu cyfarfod blynyddol Ecodyfi ar 6 Rhagfyr 2016.

65.7 Cylchlythr Rhif 71, Tachwedd 2016 gan SARPA.

65.8 Cylchlythr Tachwedd 2016 gan Russell George AC.

65.9 Cylchlythr Rhif 1, Hydref 2016 ynglyn a Gwasanaethau Cymedol gan Cyngor Sir Powys.

**16.66. Unrhyw fater arall.**

66.1 Goleuadau yng Ngheinws. Eglurodd Cyng Huw Williams fod dau golau ddim yn gweithio ym mhentref Ceinws. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir. Cyng Williams i phasio rhifau y goleuadau i'r Clerc.

66.2 Diffyg Halen. Eglurodd Cyng Huw Williams fod angen halen yn y biniau ar gwaelod ffordd Cwm Ffrydlan ac hefyd ym mhentref Ceinws.

66.3 Diffyg Golau ger Rhif 1 Glantwynyn. Eglurodd Cyng Gwyn Jones fod trigolion Glantwymyn wedi gofan am golau newydd ar yr hen ffordd fawr cyferbyn a Rhif 1 Glantwymyn. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i gofyn am goalu newydd gan pwysleio y sefyllfa gyda ymwelyr I'r Neuadd neu'r Ysgol.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 15 Rhagfyr 2016.**